# Cymru: penderfyniadau pwyllgor Medi 2023

Rhestr o Benderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor Cymru Cronfa Treftadaeth y Loteri, 7 Medi 2023.

## Ceisiadau Rownd gyflwyno'r FfAS

### Prosiect Adfer Marchnad Caerdydd

Ymgeisydd:  Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

Sir y Prosiect: Dinas Caerdydd

Crynodeb prosiect: Nod y prosiect 5 mlynedd yw adfer ac uwchraddio Marchnad Caerdydd hanesyddol, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas.

Penderfyniad: **DYFARNODD** Pwyllgor Cymru grant o £2,091,500

## Ceisiadau Rownd datblygu'r FfAS  Rhif

### Fens for all, for ever

Ymgeisydd:  Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

Sir y Prosiect: Ynys Môn

Crynodeb prosiect:  Mae'r prosiect yn bwriadu mabwysiadu dull rheoli tirwedd dalgylch gan ddefnyddio 30 o Gynlluniau Gweithredu Safle mewn partneriaeth â thirfeddianwyr i fynd i'r afael â risgiau i'r dirwedd a achosir gan gynefinoedd sydd wedi diraddio a mynd yn fratiog, ansawdd d?r ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n ceisio dod â sefydliadau statudol a gwirfoddol ynghyd mewn partneriaeth i wella iechyd ac ansawdd Corsydd Môn.

Penderfyniad: Cytunodd Pwyllgor Cymru fod y cais yn cynrychioli BLAENORIAETH UCHEL am gefnogaeth a **DYFARNWYD** grant datblygu o £362,691 (52.44% o gyfanswm y costau) gyda grant cyflwyno posib o £2,480,270.

### Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru; Safeguarding the future through Resilience and Inclusivity

Ymgeisydd:  Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru Cyfyngedig

Sir y Prosiect: Ceredigion a Sir Benfro

Crynodeb prosiect:  Byddai'r prosiect yn creu cyfleusterau hollgynhwysol, yn uwchsgilio staff a gwirfoddolwyr trwy hyfforddiant EDI a chynnal gweithgareddau allgymorth ar gyfer cymunedau lleol.

Penderfyniad: Cytunodd Pwyllgor Cymru fod y cais yn cynrychioli BLAENORIAETH UCHEL am gefnogaeth a **DYFARNWYD** grant datblygu o £144,730 (90% o gyfanswm y costau) gyda grant cyflwyno posib o £2,276,161.

## St Collen's Community Heritage and Visitor Experience 'Genesis' Project

Ymgeisydd:  Cyngor Plwyf Eglwysig Ficer a Wardeiniaid Eglwys Llangollen.

Sir y Prosiect: Sir Ddinbych

Crynodeb prosiect:  Byddai’r prosiect dwy flynedd yn gwneud gwaith adnewyddu cyfalaf ar adeilad Rhestredig Gradd I Eglwys Sant Collen yn Llangollen, Sir Ddinbych. Cefnogodd y prosiect gydnerthedd sefydliadol trwy wella cyfleusterau’r eglwys i ddarparu gofod mwy hyblyg y gellir ei addasu ar gyfer lletygarwch a digwyddiadau cymunedol, yn ogystal â man addoli.

Penderfyniad: Cytunodd Pwyllgor Cymru fod y cais yn cynrychioli BLAENORIAETH UCHEL am gefnogaeth a **DYFARNWYD** grant datblygu o £94,886 (84.37% o gyfanswm y costau) gyda grant cyflwyno posib o £464,886.